## Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 1af Gorffennaf 2021 am 7.30 pm drwy fynychu o bell

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Iwan Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Helen Evans, John Lumley a Gwyndaf Morgan.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

**420 Ymddiheriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Arwel Jones, Alwen Thomas a Ray Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod

**421 Personol**

Estynwyd llongyfarchiadau'r Aelodau i'r Cynghorydd Lumley ar ddod yn dadcu.

Cytunwyd anfon longyfarchiad i Rhys lewis ar godi arian i Gymdeithas Clefyd y Siwgr drwy feicio'n rhithiol.

**422 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed Mehefin 2021.

**423 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Cofnod 417 – arwyddion atal baw cŵn – cytunwyd archebu 20 @ £9 yr un – cyfanswm o £180.

**424 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r Cynghorydd Alwen Thomas am y tri taleb ar gyfer ennillwyr y gystadleuaeth posteri atal baw cŵn yn y swm o £30.

**425 Yswiriant y Cyngor**

**PENDERFYNWYD** awdurdodi'r Clerc i ddod o hyd i'r premiwm rhataf a threfnu polisi yswiriant gyda'r cwmni hwnnw.

**426 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio isod a gwnaed y penderfyniad fel a nodir.

a) A210505 - Plot 1, Tyngwndwn Cilcennin. New dwelling. Dormer bungalow.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

b) A210570 - One Cat Farm, Bronfre Fach, Ciliau Aeron. Ground floor rear extension to a detached cottage.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**427 Mynwent Eglwys Cilcennin**

Adroddodd y Cadeirydd fod y llythyr wedi'l lunio a'i gytuno ac y byddai'n cael ei lofnodi gan y Clerc ar ran y Cyngor, y Cynghorydd Gwyndaf Morgan ar ran Capel Seion a'r Parch. Wyn Maskell ar ran Eglwys y Drindod Sanctaidd a'i anfon at Awdurdodau'r Eglwys.

**428 Cynllun Band Eang Wefibre**

Adroddwyd y drafodaeth gyda Ben Lake AS ynghylch cyhoeddiad diweddar Open Reach ar gyfer ehangu'r gwasanaeth band eang yng nghefn gwlad Ceredigion a alla'i effeithio ar gynllun Wefibre.

Nodwyd and oedd ateb wedi dod o'r DCMS i ymholiadau Ben Lake ar y mater ac roedd dryswch ynghylch cyfnewidfa Felinfach ar hyn o bryd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i rannu gwybodaeth gyda thrigolion yr ardal ar hyn o bryd ac i aros am eglurhad cyn symud ymlaen gydag unrhyw ymgynghoriad.

**429 Honiad o Or-yrru yng Nghilcennin**

Rhoddwyd ystyriaeth i ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth drigolyn yng Nghilcennin yn mynegu pryder and oedd gyrrwyr yn dilyn y cyfyngiadau cyflymder ym mhentref Cilcennin.

Nodwyd y camau a gymerwyd yn y gorffennol a **PHENDERFYNWYD** cysylltu gyda GoSafe er mwyn ceisio monitro'r sefyllfa.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:50pm